

Cwestiynau ac Ymatebion Ffurfiol y Cyngor

Dyddiad: Dydd Iau, 29 Gorffennaf 2021

Amser: Time Not Specified

Bresennol: Cynghorwyr

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr

1 **Cwestiwn ar unrhyw adeg ar gyfer yr Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau'r Ddinas (Dirprwy Arweinydd): 2021/14- System Archebu'r Ganolfan Gwaredu Gwastraff**

Gofynnodd y Cyngorydd Fouweather:

Rwy'n derbyn cwynion gan drigolion am system archebu'r domen. Mae trigolion yn teimlo nad oes angen i'r broses hon barhau ac maent yn gofyn i'r system flaenorol gael ei rhoi ar waith unwaith eto. Rwy'n cytuno â'r trigolion y byddai'n llawer gwell bellach pe bai pobl yn gallu cael gwared ar eu sbwriel unwaith eto heb orfod gwneud apwyntiad.

A fyddai'r aelod cabinet nawr yn cytuno i ddychwelyd i'r system flaenorol?

Atebodd y Cyngorydd Jeavons:

Nid oes unrhyw gynlluniau i ddychwelyd i'r system flaenorol a ddefnyddiwyd yn y CAGC.

Mae'r system archebu sydd wedi bod ar waith dros flwyddyn wedi;

- dileu unrhyw giwio ar yr SDR
- gwell rheolaethau atal tipio gwastraff amhreswyl,
- cynyddu'r gyfradd ailgylchu o 65% yn 19/20 i dros 90% yn 20/21

Cyflwynwyd y system a weithredwyd i ddechrau o ganlyniad i bandemig Covid-19 yn gyflym, ond ers hynny mae wedi gwella ymhellach gan alluogi dros 130,000 o ymweliadau llwyddiannus gan drigolion Casnewydd.

Mae'r perfformiad gwell hwn wedi arwain at y cyfleuster yn ddiweddar yn derbyn gwobr am fod y safle CAGC gorau yn y DU.